# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Tŷ Cwm Ogwr ar gyfer Pobl Hŷn**

**Tŷ Cwm Ogwr**
**Dan-yr-heol**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF32 7HY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Tŷ Cwm Ogwr ar gyfer Pobl Hŷn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 24.7.2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl a'u perthnasau yn fodlon iawn ar safon y gofal a'r cymorth a ddarperir yng nghartref Tŷ Cwm Ogwr. Mae'r gweithwyr gofal yn gyfeillgar ac yn rhyngweithio â'r bobl yn bwyllog heb ruthro. Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol, a chânt eu hadolygu'n briodol. Mae'r gwasanaeth yn cynnig rhaglen o weithgareddau ac mae'r bobl yn ymddangos fel petaent yn eu mwynhau. Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y prydau bwyd sy'n cael eu gweini yn y cartref. Mae'r gweithwyr gofal yn hapus yn gweithio yn y gwasanaeth, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Maent yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac yn cael hyfforddiant i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth er mwyn cefnogi'r bobl yn briodol. Maent hefyd yn teimlo eu bod yn cael y lefel ofynnol o gymorth ffurfiol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn unol â'r gofynion rheoleiddiol a chaiff gwaith monitro er mwyn sicrhau ansawdd ei gynnal yn rheolaidd. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac mae proses gwyno y gall y bobl ei dilyn. Mae'r bobl yn hoffi'r ymdeimlad cartrefol a thraddodiadol ac yn teimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd. Mae rhaglen cynnal a chadw ac atgyweirio barhaus ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd bob amser mewn cyflwr da ac yn ddiogel.

## Llesiant

Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal eu hiechyd a'u llesiant. Mae gan y gweithwyr gofal gydberthnasau cadarnhaol â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion gofal a chymorth y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn gallu adnabod newidiadau o ran ymddangosiad ac ymddygiad y bobl ac maent yn cymryd camau priodol. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol er mwyn rhoi gwybod iddynt am unrhyw bryderon ac mae'n dilyn unrhyw ganllawiau a roddir. Mae'r cynlluniau personol yn nodi unrhyw ymyriadau sydd eu hangen. Caiff meddyginiaeth ei rhoi yn unol ag argymhellion y rhagnodwr.

Mae gan y bobl lais a chânt eu trin ag urddas a pharch gan weithwyr gofal sy'n eu hadnabod yn dda. Mae'r staff yn cynnig dewis o brydau bwyd, a rhoddwyd sgôr hylendid bwyd o bedwar i'r gwasanaeth, sef 'da'. Caiff cyfarfodydd preswylwyr eu cynnal, gan gynnig cyfle i'r bobl ddweud eu dweud am y ffordd y caiff y cartref ei redeg. Mae cyfarpar fel system clychau galw newydd ar gael, sy'n galluogi'r bobl i gael y gofal sydd ei angen arnynt ar yr adeg gywir. Dywedodd y bobl hynny y gwnaethom siarad â nhw bod y gweithwyr gofal yn ymateb yn gyflym pan fyddant yn defnyddio'r gloch alw. Dywedodd perthynas wrthym, “*She is happy, everything is marvellous*”.

Mae mesurau ar waith sy'n helpu i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn gyfarwydd â'r broses ar gyfer codi pryderon. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn cefnogi arferion diogel. Caiff digwyddiadau a damweiniau eu cofnodi a rhoddir gwybod amdanynt i'r asiantaethau perthnasol pan fo angen. Mae'r cynlluniau personol yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen ac yn nodi manylion am ffyrdd diogel o roi cymorth i'r bobl.

Mae'r amgylchedd yn addas ar gyfer anghenion y bobl ac yn helpu i gefnogi eu llesiant. Mae'r cartref mewn cyflwr da, yn lân ac yn gyfforddus. Mae'r ardaloedd cymunedol yn groesawgar ac yn gartrefol. Gwelsom bobl yn yr ardaloedd cymunedol. Yn ôl yr hyn a welsom, roeddent yn fodlon eu byd ac yn gyfforddus. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi byw yn y gwasanaeth. Caiff ystafelloedd y bobl eu personoli â'u heiddo eu hunain. Mae cyfarpar arbenigol ar gael yn yr ystafelloedd ymolchi a'r toiledau. Mae unigolyn cynnal a chadw dynodedig sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r cartref o ddydd i ddydd. Mae'n cwblhau gwiriadau rheolaidd o'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod y cartref, ei gyfleusterau a'r cyfarpar yn ddiogel i'w defnyddio.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o safon dda. Mae dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o gynllunio gofal yn sicrhau bod y bobl yn rhan greiddiol o'r gofal a'r cymorth a gânt. Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn glir ac yn rhoi gwybodaeth i'r staff i'w galluogi i ddarparu gofal a chymorth i'r bobl yn unol â'r anghenion a nodwyd. Ar y cyfan, mae'r nodiadau dyddiol yn dangos bod y bobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt pan fo'i angen. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu a'u diweddaru er mwyn adlewyrchu anghenion cyfredol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau y caiff y bobl neu eu heiriolwyr eu cynnwys wrth adolygu'r cynlluniau. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn ymateb i glychau galw yn gyflym. Dywedwyd wrthym "*They come quickly*". Ceir amrywiaeth o ddewisiadau bwyd a chaiff gofynion deietegol arbennig pobl eu hystyried. Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan y bobl am y dewisiadau bwyd, gan gynnwys "*It's lovely*", "*It's nice*" a "*can't fault it*".

Mae'r bobl yn cael eu trin mewn modd cynnes a charedig. Gwelsom y staff gofal yn trin y bobl fel unigolion. Maent yn sylwgar, ac yn arfer y lefelau priodol o anogaeth a chymorth wrth ymateb i anghenion gwahanol y bobl. Mae'r bobl yn ymddangos yn gyfforddus ac yn gartrefol yng nghwmni'r staff. Mae'r staff yn siarad mewn modd cyfeillgar, gofalgar a pharchus ac mae'r bobl yn ymateb yn gadarnhaol. Dywedodd y bobl sy'n byw yn y cartref wrthym "*They take good care of us*", "*They are excellent, pleasant to have around*" a "*No complaints at all*". Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod y staff gofal yn cefnogi'r bobl mewn modd urddasol. Dywedodd perthnasau wrthym "*My mother loves it, it's just a lovely place*", "*Absolutely 100% happy with the care*" a "*The staff are all brilliant*".

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn sail i ymarfer diogel, a chaiff y gweithwyr gofal eu hyfforddi i ddiwallu anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel a'i rhoi fel y'i rhagnodir. Gwnaethom edrych ar nifer o siartiau meddyginiaeth (MAR) a gwelsom nad oedd canlyniadau meddyginiaethau yn ôl yr angen (PRN) bob amser yn cael eu cofnodi. Gwnaethom dynnu sylw'r rheolwyr at hyn, a chawsom sicrwydd ganddynt y byddent yn ymdrin â'r mater yn syth.

Mae'r gwasanaeth yn cymryd pob cam rhesymol i nodi ac atal y posibilrwydd o gamdriniaeth. Mae'r staff yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel a gwnaethant ddweud wrthym y byddent yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn ar gyfer chwythu'r chwiban a gwnaethant ddweud eu bod yn teimlo'n hyderus y gallent godi mater gyda'r rheolwr pe bai angen gwneud hynny. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu a bod polisi diogelu cyfredol ar waith i bob aelod o'r staff ei ddarllen a'i ddilyn. Gwnaethom ofyn i'r bobl

a oeddent yn teimlo'n ddiogel yn y cartref a dywedwyd wrthym “*Oh yes*”, “*I should say so!*” ac “*Yes I do*”.

## Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn gyfforddus, yn lân, ac wedi'i addurno i safon resymol. Mae ardaloedd cymunedol lle gall y bobl ryngweithio â'i gilydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Gwnaethom arsylwi ar bobl yn yr ardaloedd cymunedol, ac roeddent yn ymddangos yn gyfforddus ac wedi ymlacio, sy'n awgrymu eu bod yn hapus gyda'r amgylchedd. Mae digon o doiledau ac ystafelloedd ymolchi ym mhob rhan o'r gwasanaeth ac mae cyfarpar arbenigol fel teclynnau codi ar gael i'r rhai sydd ei angen. Mae ystafelloedd y bobl yn ddigon mawr ac wedi'u personoli â'u heiddo personol. Mae staff domestig a staff golchi dillad yn bresennol bob dydd er mwyn sicrhau y caiff safonau hylendid a glendid da eu cynnal.

Mae'r rhaglen dreigl o waith cynnal a chadw a gwiriadau yn sicrhau bod yr amgylchedd, y cyfleusterau a'r cyfarpar yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystysgrifau diogelwch cyfredol ar gyfer cyfleustodau a nodweddion diogelwch tân. Mae gan bob unigolyn sy'n byw yn y cartref gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth ymarferol i'r staff gofal am y ffyrdd gorau o helpu'r bobl i adael yr adeilad mewn argyfwng. Caiff archwiliadau iechyd a diogelwch eu cwblhau er mwyn gallu nodi unrhyw beryglon posibl a rhoi gwybod amdanynt er mwyn cynnal gwaith atgyweirio neu drefnu eitemau newydd.

Caiff cyfrinachedd ei gynnal ym mhob rhan o'r cartref. Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt cyn dod i mewn. Gofynnir i bob ymwelydd gofnodi ei ymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Caiff cofnodion gofal eu storio'n ddiogel, a chaiff cofnodion personél eu cadw yn swyddfa'r rheolwr. Dim ond staff awdurdodedig all weld y cofnodion hyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gweledigaeth ac ethos y gwasanaeth yn glir. Mae Datganiad o Ddiben yn nodi nodau a gwerthoedd y gwasanaeth, a'r cymorth sydd ar gael. Gwelsom ei fod yn gyson â'r gwasanaeth a ddarperir. Mae canllaw ysgrifenedig ar gael i'r bobl yn y gwasanaeth, sy'n cynnwys gwybodaeth ymarferol am y cartref, a'r cymorth a ddarperir. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig gwahanol gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i'r bobl ofyn cwestiynau a rhoi adborth. Mae'r ddwy ddogfen ar gael yn Gymraeg. Mae'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am weithio yn y gwasanaeth ac yn dweud bod y tîm yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ar y cyfan. Maent yn dweud bod y rheolwr yn hawdd mynd ato, ac yn ymateb i faterion a gaiff eu codi. Mae'r rheolwr a'r dirprwy yn parhau i ddarparu cymorth ymarferol er mwyn helpu i sicrhau tîm sefydlog. Ymddengys fod y cyfathrebu wedi gwella, ac mae'r staff yn gwerthfawrogi polisi drws agored y rheolwr a'i bresenoldeb gweladwy.

Caiff y bobl eu cefnogi gan aelodau o dîm gofal sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n cael eu cefnogi yn eu rolau. Mae'r cofnodion goruchwylio yn dangos bod y staff yn cael lefelau cymorth ffurfiol sy'n unol â'r gofynion rheoleiddiol. Mae hyn yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol ac yn rhoi cyfle iddynt drafod unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Dywedodd y staff wrthym "*I love working here*", "*It's a lovely home, the residents seem happy*", "*enjoyable and rewarding*" a "*the manager is excellent*". Mae pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant parhaus i ddiwallu anghenion penodol y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt. Maent yn dweud eu bod yn fodlon ar yr hyfforddiant sydd ar gael.

Mae'r tîm adnoddau dynol wedi cadarnhau bod pob aelod newydd o'r staff yn destun proses fetio drylwyr sy'n bodloni gofynion rheoleiddiol. Caiff gwiriadau eu cwblhau, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), gwiriadau o gyflogaeth flaenorol a gwiriadau geirda. Mae cyflogeion newydd yn cwblhau cyfnod sefydlu pan fyddant yn dechrau gweithio ac yn cael cyfle i gysgodi aelodau profiadol o'r tîm. Yn dilyn hyn, mae'r gweithwyr gofal yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru (rheoleiddiwr y gweithlu). Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y gweithwyr gofal yn meddu ar y sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen i weithio yn y sector gofal.

Mae systemau a phrosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir. Caiff gwybodaeth am ansawdd y gofal ei chasglu a'i hadolygu at ddibenion gwella. Nodwyd gennym fod y teuluoedd yn rhoi adborth cadarnhaol am y gofal a roddir. Mae'r rheolwr a'r unigolyn cyfrifol yn cyfathrebu â'i gilydd yn rheolaidd. Nodwyd gennym na chafwyd unrhyw gwynion ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn rhoi gwybod i'r cyrff rheoleiddio a'r asiantaethau statudol perthnasol yn briodol pan geir digwyddiadau a allai effeithio ar lesiant yr unigolion sy'n derbyn gofal. Gwelsom fod y gwasanaeth yn cyfathrebu mewn modd effeithiol, agored a thryloyw.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 15 | Mae angen diweddaru'r cynlluniau personol er mwyn adlewyrchu anghenion gofal a chymorth y bobl yn gywir a lliniaru risg. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/08/2024